Hawdd ei Ddeall

Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

# Tai: Problemau gydag gwaith trwsio, lleithder a llwydni

## Ddylen ni ymchwilio? Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl



Tachwedd 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Ymchwiliad ar ei Ymchwiliad ar ei liwt ei hun Ehangach Arfaethedig - Tai: Ymateb i adroddiadau o gyflwr gwael, lleithder a llwydni ar gyfer tenantiaid sy'n agored i niwed.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**E-bost:** communications@ombudsman.wales

**Ffôn:** 0300 790 0203

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydedd Photosymbols 403527247

# Cynnwys


Am y ddogfen yma .... 4

Beth rydyn ni'n gallu ei wneud .... 6

Pam mae hyn yn bwysig .... 8

Cyfreithiau a safonau .... 10

Beth rydyn ni wedi ei weld .... 11

Ar bwy fyddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw .... 13

Bylchau yn beth rydyn ni'n wybod .... 17

Cymraeg .... 18

Beth ydych chi'n feddwl .... 19


Cwestiynau .... 21

Sut i ddweud beth rydych chi'n feddwl .... 27

Hysbysiad preifatrwydd .... 28

# Am y ddogfen yma

Ni ydy swyddfa **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**.



Rydyn ni'n edrych ar gwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydyn ni'n helpu gwasanaethau a chynghorau i wneud yn well.



Rydyn ni'n meddwl am ddechrau **Ymchwiliad ar ei Ymchwiliad ar ei liwt ei hun**.



Mae hyn yn meddwl ein bod yn dewis ymchwilio i broblem fawr mewn gwasanaethau sy'n effeithio ar lawer o bobl.



Fe fyddwn ni'n edrych ar waith trwsio, lleithder, a llwydni mewn tai cymdeithasol.



Tai cymdeithasol ydy tai sy’n cael eu darparu gan:

- Cymdeithasau Tai, sydd hefyd yn cael eu galw yn Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Cynghorau lleol.




Rydyn ni eisiau gwybod sut maen nhw’n delio ag adroddiadau a chwynion am waith trwsio, lleithder a llwydni.



Rydyn ni eisiau gwybod sut mae hyn yn effeithio ar **denantiaid agored i niwed**. Mae hyn yn meddwl, er enghraifft:

- Pobl anabl.
- Pobl hŷn.
- Plant a phobl ifanc.
- Pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- Pobl ar incwm isel.



Rydyn ni eisiau clywed beth rydych chi’n feddwl cyn i ni benderfynu edrych arno.

# Beth rydyn ni'n gallu ei wneud



Rydyn ni'n gallu cynnal **Ymchwiliadau ar ei Ymchwiliad ar ei liwt ei hun**. Mae hyn yn meddwl ein bod yn dewis edrych ar broblem.



Rydyn ni'n gallu gwneud hyn pan fyddwn ni'n meddwl bod problemau difrifol i lawer o bobl.



Rydyn ni'n gallu edrych ar sut mae darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru yn delio â:

- gwaith trwsio
- lleithder
- a llwydni.

Fe fydden ni'n edrych I weld os ydy darparwyr tai cymdeithasol yn:




- Delio ag adroddiadau o leithder, llwydni, neu gyflwr gwael yn y ffordd gywir.



- Meddwl am anghenion **tenantiaid agored i niwed** – fel pobl hŷn a phlant.

Rydyn ni hefyd yn gallu:



- Dangos sut mae darparwyr yn gallu gwella eu gwasanaethau.



- Rhannu enghreifftiau da i helpu gwasanaethau i weithio'n well ar draws Cymru.

# Pam mae hyn yn bwysig




Mae tai gwael yn gallu niweidio iechyd. Yn 2020, bu farw plentyn yn Rochdale oherwydd llwydni yn ei gartref tai cymdeithasol.



Mae tua 1 o bob 6 cartref yng Nghymru yn dai cymdeithasol.

Fe wnaeth adroddiad yn 2019 ddarganfod:



- Mae tai gwael yn gallu niweidio iechyd corfforol a meddyliol pobl yn fawr.



- Mae trwsio'r problemau gwaethaf yn gallu arbed £95 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru.

Fe wnaeth arolwg tenantiaid yn 2025 ddarganfod:



- Roedd lleithder a llwydni yn effeithio ar iechyd a diogelwch pobl.





- Roedd peidio â chael gwybodaeth glir yn gwneud pethau'n fwy anodd.



- Roedd tenantiaid yn teimlo bod eu landlord yn anwybyddu eu pryderon.

# Cyfreithiau a safonau




Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i landlordiaid gadw cartrefi mewn cyflwr da ac yn ddiogel i fyw ynddyn nhw.



Mae **Safon Ansawdd Tai Cymru 2023** yn dweud sut y dylai tai cymdeithasol da edrych. Rhaid i landlordiaid ddilyn y rheolau yma.




Rhaid i ddarparwyr tai cymdeithasol gael:

- Polisïau ar gyfer gwaith trwsio a gofalu am gartrefi.
- Proses gwyno ar gyfer tenantiaid.




Os ydy rhywun yn anhapus â'r ymateb i gŵyn, maen nhw'n gallu cwyno i ni.

# Beth rydyn ni wedi ei weld



Mae tenantiaid tai cymdeithasol yn wynebu problemau gyda:

- Sut mae landlordiaid yn ymateb i adroddiadau am waith trwsio.
- Sut mae landlordiaid yn delio â lleithder a llwydni.



Rydyn ni wedi cael mwy o gwynion am dai cymdeithasol yn ddiweddar.



Mae tenantiaid yn aml yn aros yn rhy hir am waith trwsio. Yn enwedig pobl hŷn neu anabl.



Yn ystod 2024 i 2025, fe wnaethon ni ddatrys 79 o achosion am gyflwr gwael, lleithder neu lwydni yn gynnar, heb ymchwiliad llawn.



Rydyn ni’n credu bod y problemau yma yn gallu effeithio ar lawer o denantiaid tai cymdeithasol.



Dyna pam rydyn ni’n meddwl am wneud yr Ymchwiliad ar ei Ymchwiliad ar ei liwt ei hun yma.

# Ar bwy fyddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw



Mae'r ymchwiliad yma yn gallu canolbwyntio ar bobl sydd fwyaf mewn perygl o niwed. Fel:

## Pobl anabl



Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol.

Maen nhw'n wynebu problemau fel:



- Dim digon o gartrefi maen nhw'n gallu eu defnyddio.
- Aros hir am newidiadau maen nhw eu hangen.
- Mwy o niwed o leithder a llwydni.

## Pobl hŷn



Mae angen cartrefi diogel, cynnes ar bobl hŷn.



Maen nhw'n gallu cael eu heffeithio'n fwy gan:

- Cartrefi sydd ddim yn cadw gwres yn dda.
- Lleithder a llwydni.
- Problemau diogelwch.

## Plant a phobl ifanc



Mae plant a phobl ifanc yn gallu bod yn rhan o deuluoedd neu yn dechrau byw ar eu pennau eu hunain.



Mae teuluoedd â phlant yn llawer o'r bobl sy'n aros am dai cymdeithasol. Mae tai gwael yn gallu niweidio eu hiechyd a'u twf.

# Pobl o wahanol gefndiroedd ethnig



Ethnigrwydd ydy hil neu gefndir person. Er enghraifft, du, gwyn neu Asiaidd

Mae pobl o wahanol gefndiroedd ethnig yn fwy tebygol o wynebu:



- Gormod o bobl mewn un cartref.
- Problemau ariannol.



- Problemau dod o hyd i'r cartrefi cywir a dim yn gallu deall.

# Pobl ar incwm isel



Mae incwm isel yn meddwl ennill llai o arian na’r rhan fwyaf o bobl eraill.



Mae pobl ag incwm isel yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol.




Maen nhw’n gwario mwy o’u harian ar rent.




Mae tai gwael a chostau ynni uchel yn effeithio arnyn nhw yn fwy.

# Bylchau yn beth rydyn ni'n wybod



We need to understand more about how bad housing affects different groups of people.



- Dydy llawer o ddarparwyr tai cymdeithasol ddim yn gallu dangos pa grwpiau sy'n wynebu problemau.



- Fe wnaeth arolwg yn 2023 ddangos nad oedd tua 4 o bob 10 o ddarparwyr ddim yn gallu rhannu'r wybodaeth yma yn ôl math o deulu.



- Mae'r rhan fwyaf o ymchwil yn edrych ar sut mae pobl yn cael tai, nid beth sy'n digwydd ar ôl iddyn nhw symud i mewn.

# Cymraeg




Dydyn ni ddim yn gwybod faint o denantiaid tai cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg.




Rhaid i ddarparwyr tai cymdeithasol gynnig eu proses gwyno yn Gymraeg.




Fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg ddarganfod nad ydy rhai landlordiaid bob amser yn darparu gwasanaethau Cymreig.



Mae hyn yn gallu achosi camddealltwriaeth, ac oedi mewn gwaith trwsio.

# Beth ydych chi'n feddwl



Rydyn ni'n gofyn beth rydych chi;n feddwl cyn i ni benderfynu:

- os ddylen ni ddechrau'r ymchwiliad yma
- a pha bethau ddylen ni edrych arnyn nhw.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am:

- Ydy'r ymchwiliad yma yn gallu helpu llawer o bobl.
- Os mai ni ydy'r sefydliad cywir i wneud y gwaith yma.

Rydyn ni eisiau clywed yn arbennig gan:



- Tenantiaid tai cymdeithasol sy'n agored i niwed. Fel pobl hŷn a phobl anabl.



- Pobl sydd wedi adrodd am leithder, llwydni, neu gyflwr gwael.



- Pobl sy'n delio â phryderon tai i denantiaid sy'n agored i niwed.



- Pobl sy'n cefnogi tenantiaid agored i niwed, gan gynnwys elusennau.



- Darparwyr tai cymdeithasol, cynghorau a chymdeithasau tai.

# Cwestiynau

Atebwch y cwestiynau ac esboniwch eich atebion. Rhowch enghreifftiau os ydych chi'n gallu.



**1. Ddylen ni ymchwilio i sut mae darparwyr tai cymdeithasol yn delio â lleithder, llwydni a gwaith trwsio?**

Ie ☐

Na ☐

Ddim yn siŵr ☐

Os ydych chi eisiau dweud mwy wrthyn ni, ysgrifennwch yma:



**2. Oes problemau yn y ffordd mae darparwyr tai cymdeithasol yn delio gyda gwaith trwsio neu gwynion?**

Oes

Nac oes

Ddim yn siŵr

Os ydych chi eisiau dweud mwy wrthyn ni ysgrifennwch yma:



**3. Ddylen ni ganolbwyntio ar un grŵp o bobl? Er enghraifft, pobl anabl.**

Ie

Na

Ddim yn siŵr

Os ydych chi wedi ateb Ie, ysgrifennwch pa grŵp a pham yma:



**4. Oes unrhyw ddarparwyr tai cymdeithasol ddylen ni ymchwilio iddyn nhw?**

Oes

Nac oes

Ddim yn siŵr

Os ydych chi wedi ateb Ie, ysgrifennwch pa rai a pham yma:

# Cymraeg




5. **Pa effeithiau fyddai'r ymchwiliad yn ei gael ar bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg? Ysgrifennwch yma:**




6. **Sut ydyn ni'n gallu gwneud i'r ymchwiliad yma gael effeithiau da ar bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg? Ysgrifennwch yma:**



7. **Sut ydyn ni'n gallu lleihau unrhyw effeithiau drwg ar bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg? Ysgrifennwch yma:**

# Sylwadau eraill



8. **Os oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am yr ymchwiliad posibl yma, ysgrifennwch yma:**

# Sut i ddweud beth rydych chi’n feddwl




Anfonwch eich barn erbyn 12:00 canol dydd ar **8 Rhagfyr 2025**.

Rydych chi’n gallu defnyddio unrhyw un o’r ffyrdd yma:



**E-bostiwch y ffurflen yma wedi’i chwblhau i:**

OwnInitiative@ombudsman.wales



**Postiwch y ffurflen yma wedi’i chwblhau at:**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ



**Ffoniwch** 0300 790 0203 a gofynnwch am y Swyddog Arweiniol Ymchwiliad ar ei liwt ei hun.



Llenwch ein ffurflen ar-lein.

# Hysbysiad preifatrwydd




Fe fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel. Mae ein hysbysiad preifatrwydd yn esbonio sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth. Rydych chi'n gallu ei ddarllen yma.